# Y Blynyddoedd Cynnar

**Sgil Cyffredin: Dylid annog disgyblion i drafod TGCh yn y byd ehangach a defnyddio TGCh yn briodol wrth chwarae**

| Creu a Chyflwyno Gwybodaeth a Syniadau | Canfod a Datblygu Gwybodaeth a Syniadau | Generig |
|---|---|---|
| Siarad am TGCh yn y byd ehangach a defnyddio offer chwarae TGCh yn briodol mewn sefyllfaoedd chwarae rôl | Defnyddio rhaglen efelychu i gwblhau tasgau syml | Enwi gwahanol rannau y cyfrifiadur a'r perifferolion |
| Ymateb ar lafar i amrywiaeth o ysgogiadau gan gynnwys testunau cyfryngol a TGCh | Defnyddio llygoden neu fwrdd gwyn rhyngweithiol i symud gwrthrychau ar y sgrîn at ddiben penodol | Datblygu sgiliau motor manwl drwy ddefnyddio'r llygoden |
| Gwybod y gellir defnyddio TGCh i gyflwyno geiriau, testun, lluniau a rhifau | Defnyddio TGCh i drefnu gwrthrychau mewn dilyniant ar sgrîn. | Dangos diddordeb mewn TGCh |
| Symud geiriau, rhifau, llythrennau neu luniau ar sgrîn fel rhan o dasg benodol. | Gwybod bod CD ROMs a'r rhyngrwyd yn ffynonellau gweithgareddau a gwybodaeth | Dangos dyfalbarhad i gwblhau tasgau ar y cyfrifiadur |
| Defnyddio Pecyn Paent ar gyfer Gwneud Marciau | Defnyddio rhaglen creu graffiau/pictogramau i ddatblygu sgiliau cyfrif a rhifedd | Rhannu offer a chymryd tro |
| Cynhyrchu darn ysgrifenedig sy'n datblygu | Trafod sut mae offer TGCh yn rhoi gwybodaeth i ni mewn sefyllfaoedd "bob dydd" | |
| Adnabod llythrennau neu rifau unigol ar fysellfwrdd | Deall y gellir rheoli peiriannau | |
| Dechrau deall bod bysellau arbennig ar fysellfwrdd cyfrifiadur, er enghraifft y bylchwr yn peri i rywbeth ddigwydd | Gwybod y gellir rheoli tegan robotig | |
| Dechrau deall y gellir argraffu testun a delweddau ar gyfrifiadur | Cyfarwyddo tegan robotig i gwblhau tasg syml | |
| Dechrau defnyddio camera digidol i dynnu lluniau | | |
| Creu llun syml, gan newid maint y brwsh a'r lliw | | |
| Dechrau defnyddio offer syml i recordio a chwarae seiniau | | |
| Defnyddio dilyniant o luniau i greu cyfansoddiad cerddorol syml | | |


©Tîm Cwricwlwm TGCh

# Blwyddyn 1

## Sgil Cyffredin: Dylid annog disgyblion i ddatblygu sgiliau bysellfwrdd.

| Creu a Chyflwyno Gwybodaeth a Syniadau | Canfod a Datblygu Gwybodaeth a Syniadau | Generig |
|---|---|---|
| Siarad am TGCh yn y byd ehangach a defnyddio offer chwarae TGCh yn briodol mewn sefyllfaoedd chwarae rôl | Siarad am a chymharu â realiti, rhaglen antur/efelychu syml sy'n seiliedig ar sefyllfaoedd dychmygol neu o fywyd | Dangos diddordeb mewn TGCh |
| Dechrau deall y gellir cadw ac adfer eu gwaith ar gyfrifiadur | Archwilio rhaglen antur syml neu gwblhau tasgau mewn efelychiad | Parhau i ganolbwyntio am gyfnod priodol wrth ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol |
| Gwybod y gellir amrywio maint geiriau, delweddau a rhifau wrth eu harddangos a'u bod yn rhoi gwybodaeth wahanol i ni | Gwybod bod cyfrifiaduron yn cadw gwybodaeth a dechrau chwilio am wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau | Dangos dyfalbarhad i gwblhau tasgau ar y cyfrifiadur |
| Gwybod y gellir newid maint a lliw ffont a dechrau newid maint a lliw ffont | Defnyddio pictogram i chwilio am wybodaeth a siarad am yr hyn mae'r pictogram yn ei ddangos | Rhannu offer a chydweithio ag eraill i wneud tasg |
| Defnyddio'r fysell Shift i greu prif lythyren | Creu pictogram syml | Deall y dylid gofalu am a thrin offer TGCh yn ofalus |
| Defnyddio'r bylchwr a'r bysellau Enter a Backspace | Cofnodi data mewn cronfa ddata wedi'i pharatoi a defnyddio'r wybodaeth ynddi i ateb cwestiynau syml | Ymwybodol o reolau diogelwch syml wrth weithio ag offer TGCh |
| Dewis geiriau neu rifau o gronfa eiriau i lunio brawddegau | Creu graff a dehongli'r data | |
| Argraffu eu gwaith | Gwybod bod modd labelu, trefnu a dosbarthu gwrthrychau | |
| Symud delweddau o gwmpas y sgrîn | Deall y cysyniad o eiriau allweddol i ddosbarthu a threfnu | |
| Defnyddio amrywiaeth o offer i recordio seiniau gyda chymorth | Deall y gellir rheoli peiriannau ac offer | |
| Creu cyfansoddiad cerddorol syml drwy ddefnyddio dilyniant neu batrwm ar gyfrifiadur | Peri i degan robotig symud drwy gyfres o gyfarwyddiadau | |
| Defnyddio offer sylfaenol i greu lluniau a phatrymau syml | Dechrau rhagweld a phrofi teithiau tegan y gellir ei reoli | |
| Gwybod sut i ddefnyddio'r offeryn Dadwneud i gywiro camgymeriadau neu arbrofi | Rhannu profiadau a dangos i eraill swyddogaethau sylfaenol tegan y gellir ei reoli | |
| Yn gallu defnyddio'r offeryn 'Flood Fill' fel rhan o'u llun | | |
| Yn gallu cyfuno delweddau a grëwyd â thestun ysgrifenedig | | |
| Yn gallu cyfuno delweddau ar ffurf stamp a delweddau a dynnwyd | | |
| Yn gallu defnyddio'r offeryn Siâp i amrywio trwch llinellau | | |


©Tîm Cwricwlwm TGCh

# Blwyddyn 2

**Sgil Cyffredin: Dylai disgyblion allu cadw ac adfer gwaith heb gymorth**

| Creu a Chyflwyno<br>Gwybodaeth a Syniadau | Chwilio am a Datblygu<br>Gwybodaeth a Syniadau | Generig |
|---|---|---|
| Siarad am TGCh yn y byd ehangach a defnyddio offer chwarae TGCh yn briodol mewn sefyllfaoedd chwarae rôl | Cadw ac adfer gwaith gyda chymorth | Dangos diddordeb mewn TGCh |
| Cadw ac adfer gwaith gyda chymorth | Llywio drwy raglen antur/efelychu a gwneud penderfyniadau i ddatrys problemau a chwblhau amrywiaeth o dasgau | Dangos dyfalbarhad i gwblhau tasgau ar y cyfrifiadur |
| Defnyddio'r cyfrifiadur i lunio brawddegau syml gan gynnwys atalnodau llawn a'r fysell Shift ar gyfer prif lythrennau | Rhagweld datblygiadau mewn rhaglen antur a deall y bydd penderfyniadau yn peri i rywbeth ddigwydd | Cydweithio i ddatrys problemau a thrafod eu penderfyniadau |
| Defnyddio delweddau i fireinio testun | Gwybod bod CD ROMs, cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd yn dal cyfanswm sylweddol o wybodaeth | Trafod gwaith a rhannu syniadau ag eraill |
| Defnyddio sain i fireinio testun | Defnyddio dewislenni i chwilio am wybodaeth o ffynonellau priodol | Dangos hyder i wneud dewisiadau annibynnol wrth ddefnyddio adnoddau TGCh |
| Newid maint ffont, lliw ac arddull testun | Cwblhau tudalen dal data | Gofalu am offer TGCh |
| Defnyddio'r fysell Enter i osod cyrchydd yn y testun | Trosglwyddo data i gronfa ddata wedi'i pharatoi | Rhannu a chydweithio ag eraill wrth ddefnyddio offer TGCh |
| Ychwanegu geiriau at a dileu geiriau o destun | Defnyddio chwiliad syml i chwilio cronfa ddata | Ymwybodol o reolau diogelwch sylfaenol wrth ddefnyddio offer TGCh |
| Argraffu eu gwaith | Plotio a dehongli graffau | |
| Gwybod y gellir defnyddio cyfrifiadur i anfon a derbyn negeseuon | Cynllunio taith ar gyfer tegan robotig | |
| Anfon cyfarchion drwy e-bost | Newid cyfres o gyfarwyddiadau | |
| Defnyddio dilyniant neu batrwm i greu cyfansoddiad cerddorol | Defnyddio gorchmynion uniongyrchol i symud crwban neu degan robotig dychmygol o gwmpas sgrîn | |
| Gwerthuso cyfansoddiadau cerddorol a gwneud newidiadau | | |
| Defnyddio amrywiaeth o offer i recordio seiniau | | |
| Cyflwyno neu berfformio eu halaw i eraill | | |
| Cyfuno offer siâp a 'flood fill' mewn pecyn graffeg i greu patrymau | | |
| Defnyddio amrywiaeth gynyddol o offer ac effeithiau i ddatblygu a gwella lluniau | | |
| Defnyddio camera digidol i dynnu lluniau | | |


©Tîm Cwricwlwm TGCh

# Blwyddyn 3

**Sgil Cyffredin: Dylai disgyblion allu cadw ac adfer gwaith yn annibynnol**

| Creu a chyfathrebu gwybodaeth | Chwilio am wybodaeth a'i dadansoddi | Cyfryngau |
|---|---|---|
| Cynllunio, cadw, golygu ac adfer eu gwaith yn annibynnol | Defnyddio porwr gwe i gyrraedd gwefan benodol | Cynllunio, cadw, golygu ac adfer eu gwaith yn annibynnol |
| Ychwanegu delweddau a thestun a'u symud | Dechrau deall y gall gwybodaeth ar wefannau fod yn anghywir | Recordio seiniau a'u chwarae |
| Gwerthuso amrywiaeth o arddulliau testun | Defnyddio rhestr o ffefrynnau wedi'i chreu gan yr athro | Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i ddod o hyd i ffeiliau sain i'w defnyddio yn eu gwaith |
| Golygu testun - newid maint, lliw ac arddull y ffont | Teipio URL (cyfeiriad gwe) i mewn i borwr | Creu a gwerthuso cyfansoddiadau cerddorol |
| Yn gallu defnyddio cronfa ddelweddau wedi'i pharatoi gan yr athro. | Defnyddio safle safonol diogel i chwilio am ddelweddau | Gweithio gyda seiniau a gwerthuso'r newidiadau |
| Newid maint delweddau mewn dogfen | Defnyddio'r swyddogaeth Hanes mewn porwr | Defnyddio camera digidol i dynnu lluniau |
| Dechrau defnyddio Torri, Copïo a Gludo | Gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein | Defnyddio delweddau a gipiwyd gyda rhaglenni meddalwedd eraill |
| Defnyddio rhaglen gwirio sillafu | Cynllunio, cadw, golygu ac adfer eu gwaith yn annibynnol | Defnyddio delweddau llonydd i gynhyrchu fideo syml |
| Gwybod am wahanol ffyrdd o gyfathrebu a bod modd anfon negeseuon yn bell | Defnyddio tudalen dal data i gasglu gwybodaeth briodol | |
| Anfon a derbyn e-byst | Cofnodi data cywir mewn cronfa ddata wedi'i pharatoi | |
| Gwybod pwysigrwydd defnyddio cyfeiriadau e-bost cywir | Ychwanegu/dileu cofnodion | |
| Gwybod sut i ddefnyddio e-bost yn ddiogel | Plotio a dehongli siart/graff syml | |
| | Defnyddio cwestiynau syml i chwilio'r gronfa ddata | |
| | Trefnu meysydd mewn cronfa ddata | |
| | Defnyddio gorchmynion uniongyrchol i symud crwban o gwmpas sgrîn at ddiben penodol | |
| | Defnyddio gorchmynion ailadrodd i greu trefn syml i lunio siapau | |
| | Deall effeithiau newid elfennau newidiol fel hyd ac onglau | |
| | Gweithdrefnau cadw a golygu | |


©Tîm Cwricwlwm TGCh

# Blwyddyn 4

## Sgil Cyffredin: Dylai disgyblion allu torri, copïo a gludo a dechrau defnyddio'r swyddogaethau ailadrodd

| Creu a Chyfathrebu Gwybodaeth | Chwilio am Wybodaeth a'i Dadansoddi | Cyfryngau |
|---|---|---|
| Cynllunio, creu, golygu, cadw ac adfer gwaith yn annibynnol | Cynllunio, creu, golygu, cadw ac adfer gwaith yn annibynnol | Cynllunio, creu, golygu, cadw ac adfer gwaith yn annibynnol |
| Trafod gwahanol ffyrdd o gyfathrebu gwybodaeth | Gwybod y gall gwybodaeth ar wefannau fod yn anghywir | Gwybod y gellir defnyddio TGCh i ddatblygu delweddau ar sgrîn |
| Defnyddio'r llyfr cyfeiriadau i greu ac ymateb i e-bost, deall pwysigrwydd defnyddio cyfeiriadau e-bost cywir | Dechrau defnyddio peiriant chwilio wedi'i addasu i chwilio am wybodaeth i'w defnyddio yn eu gwaith | Defnyddio'r offeryn Dewis mewn pecyn graffig i greu stampiau a phatrymau a ailadroddir |
| Creu ac ymateb i e-bost, gan ddefnyddio atodiadau | Gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein | Defnyddio 'Cadw fel' i gadw gwaith drafft |
| Deall bod modd anfon gwahanol fathau o ffeil fel atodiadau | Gwybod sut i greu cyfres o gwestiynau sy'n disgwyl atebion cadarnhaol neu negyddol i adnabod gwrthrychau | Creu patrymau mewn pecyn graffig, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer ac effeithiau |
| Defnyddio'r mewnflwch, eitemau a anfonwyd, blwch allan a'r ffolder dileu | Datblygu diagram coeden i ymchwilio i gyfres o gwestiynau | Adolygu a golygu gwaith graffigol a thrafod sut gellir defnyddio TGCh i wneud newidiadau |
| Yn gallu anfon llun neu ffeil fel atodiad | Defnyddio cronfa ddata ganghennog i drefnu gwybodaeth i ateb cwestiynau | Defnyddio camera digidol yn effeithiol, gan ymgyfarwyddo â nodweddion y camera |
| Deall y gellir anfon gwahanol fathau o ffeil fel atodiadau | Datblygu cronfa ddata ganghennog drwy ychwanegu a dileu gwrthrychau a golygu cwestiynau | Creu cyfansoddiadau ffotograffig mewn amrywiaeth o steiliau |
| Gwybod sut i ddefnyddio e-bost yn ddiogel | Deall yr angen i fod yn gywir wrth gofnodi data mewn cronfa ddata | Trosglwyddo delweddau o'r camera i'r cyfrifiadur |
| Defnyddio technegau copïo, gludo ac ailadrodd yn eu gwaith | Cofnodi data mewn taenlen a baratowyd ar sail arolygon | Defnyddio meddalwedd i olygu ffotograffau |
| Unioni testun, i ganoli penawdau | Defnyddio'r offeryn symio mewn taenlen | Gwerthuso a defnyddio ffotograffau i fireinio eu gwaith |
| Golygu ac adolygu eu gwaith | Defnyddio'r data i blotio a dehongli amrywiaeth o graffau | |
| Defnyddio delweddau i ddarlunio eu gwaith | Deall bod taenlenni yn gweithio gyda phatrymau a chysylltiadau | |
| Troi delweddau, eu gosod mewn grŵp a'u gosod fel eu bod yn gorgyffwrdd ar dudalen | Creu taenlen sy'n cynnwys fformiwlâu syml a defnyddio'r swyddogaeth Llenwi i atgynhyrchu celloedd a fformiwlâu | |
| Dechrau ystyried dewis priodol o gynllun a steiliau | Holi a dadansoddi'r data a/neu effaith newid y data | |
| Creu hypergysylltau rhwng tudalennau | Ysgrifennu am yr ymchwil, gan ddefnyddio graffau i ddarlunio eu gwaith | |


©Tîm Cwricwlwm TGCh

# Blwyddyn 5

## Sgil Cyffredin: Dylai disgyblion ystyried cynllun a chyflwyniad ym mhob agwedd ar waith TGCh

| Creu a Chyfathrebu Gwybodaeth | Chwilio a Dadansoddi Gwybodaeth | Cyfryngau |
|---|---|---|
| Cynllunio, adolygu ac ail-gadw gwaith yn annibynnol | Dewis gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau penodol, gan gynnwys y rhyngrwyd | Cynllunio, cadw, adfer a golygu gwaith yn annibynnol |
| Ychwanegu a gweithio gyda delweddau mewn dogfen, gan ystyried y cynllun a'r diben | Ychwanegu data at gronfa ddata a gwirio ei fod yn gywir | Defnyddio camera digidol/camera gwe i dynnu lluniau y mae eu hangen ar gyfer prosiect |
| Defnyddio gosodiadau uwch ac is a threfnu gwrthrychau mewn grŵp i gynhyrchu'r cynllun gorau i gyflwyno testun a delweddau | Defnyddio technegau cymhleth sy'n cynnwys AC, NEU, NID, gweithredwyr <> i chwilio cronfa ddata | Deall y gall nodweddion camera digidol wella delweddau |
| Creu templedi gan ddefnyddio fframau testun a llifau testun | Plotio graffau a defnyddio tablau i ddadansoddi canlyniadau mewn cronfa ddata | Defnyddio offer recordio sain i recordio seiniau neu leisiau |
| Defnyddio cynllun ac offer unioni testun i gyflwyno gwybodaeth yn gywir | Trefnu data mewn mwy nag un maes | Dewis delweddau priodol a gipiwyd, seiniau a lleisiau i'w defnyddio mewn prosiect wedi'i gynllunio |
| Creu a newid tablau | Defnyddio taenlenni a grëwyd fel modelau byw i holi "beth fyddai'n digwydd petai...?" | Creu fideo neu ddelweddau wedi'u hanimeiddio sy'n cynnwys adnoddau a gipiwyd ac adnoddau priodol eraill fel cerddoriaeth |
| Defnyddio offer sy'n mireinio cynllun fel dyfrnodau, ffiniau ac effeithiau priodol | Creu taenlenni sy'n cynnwys amrywiaeth o fformiwlâu a chelloedd mewn gwahanol fformatau, er enghraifft arian a lleoedd degol | Trafod a chymharu ffilm o ran effaith ar gynulleidfa |
| Creu hypergysylltau | Dosbarthu, trefnu a chopïo formiwlâu ar draws amrywiaeth o gelloedd | Esbonio dewis o ddarnau, effeithiau a strwythur mewn perthynas â'r adnoddau a grëwyd ganddynt |
| Dadansoddi, trafod a gwerthuso amrywiaeth o gyfryngau/testunau/genre | Deall bod newid data mewn taenlen yn newid y graff a ddangosir | Cynllunio a chydweithio ar brosiect neu dasg fel grŵp |
| Cymharu defnyddio TGCh â dulliau traddodiadol a'i werthuso | Defnyddio crwban sgrîn i ymchwilio i batrymau, gan ddefnyddio gweithdrefnau ac is-weithdrefnau | |
| Anfon e-byst gydag amrywiaeth o atodiadau sy'n cynnwys dogfennau, delweddau neu seiniau | Rhagweld, ar raddfa syml, sut mae newid un elfen newidiol yn effeithio ar un arall | |
| Gwerthuso nifer o wefannau tebyg o ran cynllun a chyflwyniad | Creu eu hamgylchedd crwban eu hun | |
| Gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein | | |


©Tîm Cwricwlwm TGCh

# Blwyddyn 6

**Sgil Cyffredin: Dylai disgyblion allu gwneud dewisiadau a chyflwyno eu gwaith at ddiben penodol, gan gofio'r gynulleidfa arfaethedig.**

| Creu a Chyfathrebu Gwybodaeth | Chwilio am Wybodaeth a'i Dadansoddi | Cyfryngau |
|---|---|---|
| Ystyried a gwerthuso sut y defnyddir TGCh yn y byd ehangach a defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio eu gwaith | Chwilio am wybodaeth a'i dethol o amrywiaeth o ffynonellau TGCh a ffynonellau eraill | Cynllunio prosiect cyfryngau gan gynnwys technegau fel creu bwrdd stori |
| Gwneud penderfyniadau a dewisiadau ynghylch y meddalwedd/caledwedd mwyaf priodol i'w ddefnyddio at ddiben penodol | Defnyddio peiriant wedi'i addasu, diogel i chwilio am wybodaeth berthnasol o'r rhyngrwyd | Dewis a defnyddio offer TGCh priodol i recordio sain, cerddoriaeth, lleisiau, delweddau a/neu fideo |
| Adnabod nodweddion dyluniad a chynllun tudalen dda a defnyddio technegau ac offer i gynllunio eu gwaith | Ar ôl dod o hyd i wybodaeth, gwirio ei bod yn berthnasol, yn gredadwy ac yn gywir | Deall y gall nodweddion offer TGCh wella safon yr adnoddau a gipiwyd |
| Cydweithio i ymchwilio, cynllunio, addasu a threfnu gwybodaeth ar gyfer cynulleidfa benodol | Gwybod sut i gadw'n ddiogel ar-lein | Defnyddio adnoddau a gipiwyd i ddatblygu cyflwyniad amlgyfrwng |
| Deall bod cyflwyniad yn cyfleu ystyr ac addasu gwaith ar gyfer cynulleidfa benodol | Cynllunio, dylunio a gwerthuso tudalen casglu data, gan ddeall bod gwybodaeth yn cael ei chadw mewn cronfa ddata mewn amrywiaeth o feysydd | Deall y gall delweddau, wrth eu cyfuno â cherddoriaeth briodol, gyfleu neges bwerus |
| Cynllunio, creu a gwerthuso cyflwyniadau sy'n cynnwys testun, delweddau, sain, lleisiau neu gerddoriaeth | Cynhyrchu a chofnodi gwybodaeth mewn cronfa ddata, gan wirio ei bod yn gywir | Creu cyflwyniad gyda theitl, delweddau, a sain sy'n creu awyrgylch priodol ac yn cyfleu ystyr |
| Cynllunio, dylunio a chreu llyfrau neu dudalennau gwe electronig sy'n cynnwys amrywiaeth o hypergysylltau | Creu cwestiynau priodol a dewis pa dechnegau chwilio i'w defnyddio i chwilio cronfa ddata | Cynllunio stori, gan ddefnyddio camera fideo digidol i olygu a chyfuno testun, sain a cherddoriaeth i'w chreu |
| Creu a defnyddio delweddau at ddiben penodol | Deall y gwahaniaeth rhwng cronfa ddata a thaenlen | Ychwanegu teitlau a thrawsnewidiadau at y fideo |
| Dechrau deall pwysigrwydd maint a math o ffeil yn dibynnu ar ddiben | Ymchwilio i fodelau taenlen barod sy'n cynnwys amrywiaeth gymhleth o fformiwlâu a gofyn cwestiynau fel "beth fyddai'n digwydd petai...?" | Gwerthuso a mireinio gwaith, gan ystyried y gynulleidfa arfaethedig |
| Defnyddio TGCh i gyfathrebu yn electronig ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd | Creu taenlenni sy'n cynnwys amrywiaeth o fformiwlâu a defnyddio'r daenlen fel model byw ar gyfer ymchwil bellach | |
| Cymharu defnydd TGCh â dulliau traddodiadol a'i werthuso | Defnyddio swyddogaethau taenlen fel cyfartaledd, mwyafswm a lleiafswm | |
| | Plotio amrywiaeth o graffau i ddangos data penodol yn y daenlen | |
| | Dod i gasgliadau ar sail eu dadansoddiad a chyflwyno'r canlyniadau | |


©Tîm Cwricwlwm TGCh